

Cofnodion

| | |
|--|--|
| Teitl y cyfarfod: | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| Lleoliad: | Cyfarfod Microsoft Teams |
| Dyddiad y cyfarfod: | 6 Tachwedd 2023 |
| Yr aelodau a oedd yn bresennol: | Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd) Jon Goldsworthy, CNC Sarah Hetherington, CNC Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Einir Williams, Cyswllt Ffermio Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) Matt Walters, Llywodraeth Cymru Delyth Lewis-Jones, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Russ Thomas, Hybu Cig Cymru Ieuan S. Davies, CNC Dylan Morgan, NFU Cymru Chris Mills, Afonydd Cymru Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Chris Thomas, CNC Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru Ruth Johnston, CNC Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin Kate Snow, United Utilities |
| Mynychwyr ychwanegol: | Brian Price, CNC (Eitem 4) Chris Lindley, CNC (Eitem 4) Sue Buckingham, CNC (Eitem 4) Nick Thomas, CNC (Eitem 4) |
| Ymddiheuriadau: | Nichola Salter, CNC Katy Simmons, CNC Marc Williams, CNC |
| Ysgrifenyddiaeth: | Bronwen Martin, CNC |

Eitem 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp y Fforwm) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau.

2. Caiff y cyfarfod ei recordio er mwyn cael cofnod o'r cofnodion. Bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.
3. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas ag eitemau'r agenda.
 - DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflen datgan buddiannau eisoes, ond dylent gyflwyno datganiad os oes ganddynt fuddiannau mewn unrhyw beth arall ar yr agenda hefyd.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

4. Ar ôl adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd Rhys y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd allu eu gweld. Felly, mae hi'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Aeth aelodau'r grŵp ati i adolygu cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Hydref. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ac ni dderbyniwyd unrhyw newidiadau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Hydref.
6. Rhannodd Bronwen y cofnod o'r camau gweithredu a oedd heb eu cymryd. Cyflwynwyd diweddariadau llafar pan fo modd.

Eitem 3. Materion sy'n codi

7. Anogwyd y grŵp i drafod materion a oedd yn deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd â dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.
8. Ni soniodd y grŵp am unrhyw faterion o'r fath.

Eitem 4. Diweddariad: Gwaith Modelu Amonia Ger SoDdGA

9. Ymunodd Brian Price, CNC, â'r cyfarfod i gyflwyno trosolwg a'r diweddaraf ar y gwaith Modelu Amonia y mae CNC yn ei wneud ger Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) – Nitrogen Atmosfferig a Chynlluniau Gweithredu Nitrogen ar Safle (SNAPs). Mae dwy swydd yn cael eu creu o fewn CNC i edrych ar leihau lefelau amonia ger SoDdGA.
10. Dechreuodd Brian drwy ddangos diagram yn amlinellu ffynonellau a dyddodiad llygredd. Daw ffynonellau amonia yn bennaf o amaethyddiaeth, sylffwr deuocsid o hylosgi ac o ocsidau Nitrig, sef ffurf ocsidiedig nitrogen. Prifwynt atmosfferig yw'r mecanwaith cludo. Mae dau fath o ddyddodiad, sef dyddodiad gwlyb a dyddodiad sych – dyddodiad sych yw ffurf nwyol nitrogen, sef amonia, ac mae hynny'n tueddu i ddigwydd yn eithaf agos i safleoedd, a'r dyddodiad gwlyb yw pan fo'n cyfuno â dŵr glaw a gronynnau eraill ac yn cael ei gludo fel cymylau a'i ddyddodi ymhellach i ffwrdd. Mae dyddodiad gwlyb yn anodd iawn i'w reoli oherwydd mae'n cael ei gludo o Ewrop. Mae dyddodiad sych yn digwydd yn agosach, a ffurf nwyol llygryddion y mae hwn yn dueddol o fod. Mae'r ddau yn dyddodi ocsidau a gronynnau amoniwm ar y tir sy'n arwain at newidiadau ym maethynnau a chylch maethynnau'r pridd, lleihau bioamrywiaeth ac ewtroffigedd llynnoedd ac afonydd. Y peth pwysig i'w nodi yw bod dyddodiad sych yn ffynhonnell llygredd leol i raddau helaeth.

11. Mae amaethyddiaeth yn cynhyrchu amonia, mae'n sgil-gynnyrch amaethyddiaeth a ddaw yn y bôn o dail a throeth yn cymysgu. Disgrifiodd Brian yr effaith ar yr amgylchedd a dangosodd luniau i ddangos effeithiau negyddol cynnydd mewn nitrogen ar figwyn yn SoDdGA y Mynydd Du. Trafododd Brian sut y mae rhywogaethau dangosol yn adlewyrchu effeithiau llygredd.
12. Disgrifiodd Brian y gwaith modelu a wnaed a oedd yn cynnwys defnyddio ap proffilio nitrogen i fesur dwysedd allyriadau o amgylch safleoedd a deall yr effaith ar SoDdGA. Mae'r adnodd wedi helpu i ddatblygu rhestr safleoedd wedi'u trefnu'n seiliedig ar gyfartaledd treigl tair blynedd sy'n dangos pa safleoedd yw'r gwaethaf. Defnyddir hyn i geisio deall pa ffactorau sy'n gyfrifol fel bod modd i ni gael trafodaethau gwell gyda ffermwyr a Llywodraeth Cymru ynghylch y math o atebion y gallwn eu rhoi ar waith a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i geisio lleihau'r lefelau hyn.

Cyflwynodd Brian drosolwg byr o fesur amonia gan ddefnyddio gwahanol samplwyr ac unedau monitro.
13. Disgrifiodd Brian yr adroddiad ar gyfer SoDdGA Ystad Dinefwr yn Sir Gâr. Mae ganddo'r casgliad cyfoethocaf o gennau parcdir yng Nghymru. Dangosodd arolwg 2017 ei fod yn 'lân' yn y canol ac 'wedi'i lygru â N' ar yr ymylon. Bu dirywiad mewn cennau ers rhwng 2017 a 2019 a llygredd eithriadol o uchel yn dod o ffermio gwartheg godro, sef prif weithgaredd ffermio yn y rhanbarth hwnnw. Gosodwyd samplwyr ar y safle ac o'i gwmpas er mwyn deall y sefyllfa'n well. Disgrifiodd Brian y canlyniadau ar draws y 15 lleoliad monitro drwy ddefnyddio graff.
14. O ran lleihau allyriadau, mae nifer o fesurau sy'n deillio o'r dechnoleg orau sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi clawr ar storfeydd slyri a storfeydd gweddillion treuliad, taenu allyriadau isel, llai o brotein crai mewn porthiant, lleihau dwysedd stocio, newid i amoniwm nitrad neu ddefnyddio gwartaith wrea gwarchoddedig, ystyried sut y mae gwartheg yn cael eu cadw dan do (asideiddio tail a golchi i lawr yn rheolaidd ac ati), crydau sy'n bachu nitrogen, codlysiau a phorfeydd meillion a lleihau amonia trwy ddefnyddio coed (e.e. llain o goed o amgylch ffynonellau'r allyriadau i'w dal).
15. Cyflwynodd Brian grynodedb o'r fframwaith ar gyfer lleihau gan gynnwys gwahanol fesurau ar gyfer gwartheg, moch, dofednod a gwartaith. Wrth symud ymlaen, o safbwynt polisi, mae'n bwysig sicrhau cyllid a chyfarwyddyd clir.
16. Soniodd Brian am y Cynlluniau Gweithredu Nitrogen ar Safle lle mae CNC yn datblygu cynllun ar gyfer safle penodol. Rydym yn nodi ffynonellau allyriadau lleol sy'n cyfrannu at allyriadau gormodol ac yn galluogi cydweithredu i fynd i'r afael â dyddodi nitrogen gormodol ac amonia o fewn safleoedd gwarchoddedig.
17. Cyflwynodd Sue Buckingham, CNC, ddiweddariad cryno ar ystadegau allyriadau atmosfferig yng Nghymru ac ar enghreifftiau o'r synergedd sy'n bodoli rhwng ansawdd aer ac ansawdd dŵr. Dangosodd Sue graff i gyflwyno trosolwg o amonia o fewn y cyddestun cenedlaethol. Dyddodiad gwlyb yw pan fydd amonia yn cyfuno â llygryddion eraill ac yn ffurfio gronyn o'r enw PM 2.5. Mae llygredd aer yn berygl iechyd mawr i'r cyhoedd sy'n achosi mwy o niwed nag y mae smygu goddefol. Dywed Sefydliad Iechyd y Byd, 'nad oes lefel ddiogel o PM 2.5.' Ffermydd yw prif ffynhonnell llygredd ar gyfer dinasoedd y DU. Yng Nghymru, mae dod i gysylltiad hirdymor â llygredd aer o waith dyn yn cwtogi bywydau o rhwng 6 ac 8 mis a'r gost i Gymru yw £1 biliwn y flwyddyn. Mae ymgyrch fawr i leihau amonia o safbwynt iechyd dynol. Mae ymchwilwyr wedi nodi

lefelau critigol ar gyfer rhywogaethau penodol ac mae gan blanhigion is lefel gritigol o 1 microgram y metr ciwbig, ac uwchlaw hyn gwneir niwed i'r planhigyn. Y lefel gritigol ar gyfer planhigion uwch yw 3 microgram y metr ciwbig. Crynhodd Sue yr effaith y mae amonia yn ei chael ar safleoedd dynodedig. Fel arfer mae gan amonia gyrraedd cymharol fyr ac mae'n llygrydd nad yw'n para'n hir. Ceir y crynodiadau uchaf fel arfer o fewn ychydig gannoedd o fetrau o'r ffynhonnell, gan greu brig uwch ac yna cynffon hir o allyriadau sy'n lleihau. Defnyddiodd Sue graffiau i ddangos crynodiadau NH₃ atmosfferig mewn tirwedd gyda ffermio dofednod, biff a defaid yng nghyffiniau SoDdGA.

18. Soniodd Sue fod amonia yn faethyn gwerthfawr. Gwerth y nitrogen a gollir i'r awyr fel amonia yn y DU yw £185.5 miliwn a £10.78/ha o dir amaethyddol yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i leihau cyfanswm allyriadau amonia 16% erbyn 2030. Mae Cynllun Aer Glân i Gymru, ac maent hefyd wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer lleihau allyriadau amonia, sy'n tynnu sylw at rai o'r mesurau y mae modd eu cymryd. Mae angen i ni leihau dyddodiad niweidiol ffurfiau adweithiol o nitrogen ar Gymru a diogelu ein cynefinoedd â blaenoriaeth, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i geisio lleihau crynodiadau PM 2.5 ledled y DU.
19. Trafododd Sue [Asesu ac Ymdrin ag Effeithiau Nitrogen Atmosfferig ar Safleoedd Natura 2000 yng Nghymru \(Adroddiad AAANIS, 2015\)](#) a'r cynlluniau i leihau effaith allyriadau amonia lleol ar safleoedd drwy Gynlluniau Gweithredu Nitrogen ar Safle (SNAPs). Crynhodd Sue ychydig o'r matrices gweithredu sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r effeithiau ar draws y system ffermio gyfan. Yn Ewrop, lle mae pobl wedi mabwysiadu llawer o'r mesurau hyn, maent wedi llwyddo i leihau allyriadau amonia 50% ac wedi dangos bod modd ei wneud.
20. Soniodd Sue y bydd CNC yn edrych ar Gytundebau Adran 16 pwrpasol ar gyfer rhai ffermwyr i'w helpu lle na allant gael grantiau gan Lywodraeth Cymru na chymorth gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Rhannodd Sue enghreifftiau o'r synergedd ac integreiddio sy'n bodoli rhwng rheoli nitrogen maethynnau a rheoli amonia, gwrtaith, slyri, tail fferm a chyfansoddion organig eraill.
21. Dywedodd Chris Mills fod rheoli SoDdGa yn cael ei reoleiddio'n dynn o fewn y SoDdGA ei hun ac awgrymodd fod angen parth clustogi o amgylch SoDdGA, sydd hefyd yn cael ei reoli, fel modd effeithiol o wir ddiogelu'r nodweddion. Gofynnodd Chris a oedd CNC wedi ystyried hyn. Dywedodd Brian mai dyna'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud ar lawr gwlad oherwydd mae'n debyg mai dyma'r peth hawsaf i'w gyflawni, yn amodol ar gyllid. Soniodd Brian am y Cynllun Cynefin Cymru newydd sydd newydd gael ei gyhoeddi, mae rhywfaint o sgorio'r cynllun hwnnw yn ymwneud ag edrych ar barthau clustogi o ran y broses ddethol i ennill cyllid cynefin. Er nad yw hynny o reidrwydd ar gyfer y SoDdGA ei hun, mae ar gyfer fferm. O ran y parthau clustogi, mae rheoli'r SoDdGA yn iawn, ond mae popeth yr ydym yn sôn amdano yn dod o ffynonellau allanol felly yn ddelfrydol byddai hynny'n dod trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyllid yn 2025 yn y dyfodol i ddilysu hynny. Awgrymodd Chris efallai bod hynny'n rhywbeth y mae angen ei ystyried wrth ddynodi safleoedd newydd yn y dyfodol. Dywedodd Sue ei bod hefyd yn ymwneud â nodi pa mor fawr y dylai'r parth clustogi fod a bod hynny'n bwysig iawn. O safbwynt y diwydiant ffermio, yn amlwg nid ydych am roi'r ffermwyr hynny sy'n agos at SoDdGA dan anfantais o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn agos at SoDdGA. Atgoffodd Brian y grŵp bod angen i gamau gweithredu a newidiadau fod yn hyfyw ac yn broffidiol i fusnesau fferm.

22. Trafododd Gareth pa mor gymhleth y gall y systemau hyn fod. Gall y sector amaethyddol helpu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, ond mae angen i ni osgoi ymateb difeddwl yn y dyfodol gyda mesurau cynhwysfawr sy'n cwmpasu Cymru os bydd gan ardaloedd penodol fwy o allyriadau amonia o bosib. Cyfeiriodd Gareth at y pryderon a mynegwyd ynghylch storio mwy o slyri am gyfnod hirach dros y gaeaf. Gofynnodd Gareth a yw allyriadau amonia yn cynyddu (nid o reidrwydd oherwydd cynnydd ym maint y slyri) os yw'r un faint o slyri yn cael ei storio am gyfnod hirach. Dywedodd Brian nad oes gennym y math yna o atebion a'i fod yn gysylltiedig ag ymchwil gyfredol. Fodd bynnag, o bwynt ymarferol, mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol y byddwn yn storio ffynhonnell allyriadau am gyfnod hirach. Un o'r meysydd eraill sy'n gweld twf yw gweddillion treulïad anaerobig a threulio anaerobig. Mae lefelau amonia yn cynyddu ac mae hynny'n bennaf oherwydd troi at dreulio anaerobig a ffermio am ynni. Mae ffermydd sy'n tyfu cnydau ar gyfer treulio wedi'u cyfyngu i faint o dir y gallant dyfu cnydau arno, ond mae rhai o'r planhigion treulio anaerobig yn tynnu gwastraff o dde Lloegr ac yn ei dreulio'n lleol yng Nghymru ac yna'n ei ledaenu'n lleol hefyd. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o hynny, deall maint y broblem a dod o hyd i fesurau lliniaru posibl. Soniodd Brian am erthygl ddiweddar yn y wasg ar fio-solidau halogedig. Mae hon yn wyddoniaeth sy'n esblygu, ac mae'r atebion yn cael eu datblygu ond mae hyn yn gymhleth. Trafododd Sue bwysigrwydd dyluniad storio i leihau allyriadau amonia a bod hyn yn hanfodol.

23. Trafododd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a'r effaith ar amonia. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried effeithiau posibl cyfnewid llygredd wrth gyflwyno'r Rheoliadau. Cyfeiriodd Andrew at y drafodaeth a fu ynghylch y gwahaniaethau gyda Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Ar gyfer y rhan fwyaf o ffermydd, mae newid rhwng pedwar a phum mis o storio ond gan ddefnyddio data glawiad gwahanol. Mae cryn dipyn o wahaniaeth o ran yr hyn y mae hynny'n ei olygu ar gyfer yr allyriadau amonia posibl sy'n gysylltiedig â faint o slyri sy'n cael ei storio. Cynigiodd Andrew gael sgwrs gyda Brian a Sue y tu allan i'r cyfarfod.

24. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, a oedd y modelu yn cefnogi'r gwaith dilysu a wnaed gan CNC drwy samplu'r safle. Dywedodd Brian nad yw'r samplwyr a ddefnyddiwyd ar y safle mor fanwl gywir â rhai Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU UKCEH o ran safonau ansawdd a'u cywirdeb ar lefelau is. Maent yn iawn ar gyfer lefelau fferm oherwydd mae'n amlwg nad yw'r gwahaniaeth o 1 microgram neu 100 mor bwysig pan yr ydych yn chwilio am lefel gefndir o 1. Maent yn dangos lefelau sy'n uwch na'r model ond fe'u defnyddiwyd i roi gwahaniaethau gofodol, ac nid lefelau cywir – mae'n ddangosol yn hytrach na phenodol.

Roedd Rachel am ddeall y rhyngweithio rhwng y Cynllun Gweithredu Nitrogen ar Safle a gynhigiwyd a'r cynlluniau rheoli gwirioneddol ar gyfer safleoedd dynodedig. Gallai hyn ychwanegu lefel o ddyblygu a dryswch gan ei fod yn gymhleth iawn. Dywedodd Brian mai'r anhawster yw bod y rhan fwyaf o gynlluniau rheoli safleoedd yn ymwneud â'r safle, ond rydym ni yn edrych ar yr ardaloedd o amgylch y safle gan nad yw'r allyriadau ar y safle ei hun (cânt eu gwaddodi ar y safle o ffynhonnell oddi ar y safle). Rydym yn rhan o brosiectau strategol ac mae gennym Gytundebau Adran 16 yn CNC sy'n caniatáu i ni lunio cytundeb â thirfeddiannwr y tu allan i SoDdGA. Ar gyfer unrhyw beth sy'n symud ymlaen gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, byddai'n rhaid ei ffurfioli o fewn y broses honno, boed hynny'n system sgorio neu'n rhywbeth tebyg sy'n gwobrwyo ar sail gweithgaredd. Mae hyn yn gymhleth gan na fydd y pethau sy'n digwydd mewn gwirionedd ar y safle yn lleihau'r lefelau sy'n effeithio ar y safle, byddai hynny'n cael ei

wneud trwy gytundeb â'r ffermwr sy'n rheoli tir drws nesaf iddo. Nid yw'n glir ar hynny eto o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac rydym yn gobeithio darparu mewnbwn i'r broses. Gofynnodd Rachel am fanylion cyswllt Brian er mwyn iddi allu anfon ymateb NFU Cymru i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru a wnaeth ddarn o waith ar y safleoedd gwarchoddedig. Mae llawer o sôn am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel y mecanwaith i gynnal y pethau pwrpasol unigol hyn hyd yn oed drwy'r haen ddewisol. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw hynny'n mynd i fod yn fodel effeithiol.

Gofynnodd Rachel am gwmpas y prosiect penodol. Mae ffermwyr yn ceisio buddsoddi mewn seilwaith i fodloni gofynion y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ac yn wynebu rhwystrau yn y system gynllunio oherwydd y cyngor statudol yr oedd CNC yn ei roi ar amonia. Gofynnodd Rachel a oedd gan Brian unrhyw fewnbwn i'r broses hon. Dywedodd Brian nad yw'n rhan o'r ochr gynllunio ar hyn o bryd a'n bod yn canolbwyntio ar y rhan sy'n ymwneud â SoDdGA. Mae angen dull mwy cynhwysfawr a dyna pam yr ydym yn cael trafodaethau fel hyn. Dywedodd Brian nad oedd yn ymwybodol o'r materion y mae Rachel wedi'u hamlygu ac awgrymodd y byddai sgwrs y tu allan i'r fforwm hwn yn ddefnyddiol i ddeall hynny. Cyfeiriodd Rachel at Ganllawiau Sgrinio Amonia CNC sy'n atal rhai ffermwyr rhag cydymffurfio. Cytunodd Rachel a Brian i drafod y materion hyn. Dywedodd Sue fod yna Rhwydwaith Monitro Amonia Cenedlaethol a bod 4 safle yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae awydd i Lywodraeth Cymru ariannu mwy oherwydd byddai modelu amonia yn fwy cywir wedyn. Mae hynny'n rhywbeth a allai fod yn bwysig iawn yn y dyfodol, yn enwedig fel modd i ddeall lefelau cefndir amonia.

25. Soniodd Andrew fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar ryddhau her Menter Ymchwil Busnesau Bach yn ymwneud ag amonia ac amaethyddiaeth. Y syniad yw y bydd yn gystadleuaeth gam dau gyda'r nod o ddangos technoleg sydd eisoes ar waith (e.e., Pruex). Lanswyd yr her ddydd lau ac mae'n dod i ben ar 5 Ionawr 2024. Dywedodd Andrew y byddai'n anfon y wybodaeth.

PG 6 Tachwedd 01: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i rannu gwybodaeth am Her Menter Ymchwil Busnesau Bach Llywodraeth Cymru ynghylch amonia ac amaethyddiaeth.

PG 6 Tachwedd 02: Bronwen Martin i rannu manylion cyswllt Brian Price a Sue Buckingham, CNC.

26. Soniodd Sue fod gan Cyswllt Ffermio adnoddau da iawn ar eu gwefan sy'n ymwneud ag amonia. Mae Sue hefyd yn siarad â Cyswllt Ffermio am ddatblygu mwy o ddeunydd ar gyfer eu cynghorwyr ac yn trafod sut y gellid ymgorffori mesurau lliniaru amonia yn rhai o'u rhaglenni ar y fferm.

27. Dywedodd Rhys fod hyn o bosib yn rhywbeth y gallwn ni fel grŵp ei ddatblygu. Efallai bydd modd i ni ddychwelyd at y pwnc hwn a chanolbwyntio ar rai o'r mentrau hyn.

Eitem 5. Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA

28. Cyflwynodd Ieuan S. Davies, CNC a David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, y newyddion diweddaraf ar yr adroddiad drafft a baratowyd gan y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd (ATG) ACA.

29. Cyflwynodd David grynodedb o gynnwys yr adroddiad gan gynnwys rôl ffosforws, y cefndir rheoleiddio, polisi ar gyfer y dyfodol, heriau a chyfleoedd ac argymhellion.
30. Soniodd leuan am rai o'r camau nesaf. Nid yw'r adroddiad wedi'i gwblhau eto gan yr ATG. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gydag Is-grŵp y Fforwm a Llywodraeth Cymru ar ôl ei gwblhau. Y bwriad yw y bydd yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu ar 30 Tachwedd i gyd-fynd â Thrydydd Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd y Prif Weinidog. Soniodd leuan fod y Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru am barhau â'r ddeialog gyda'r sector a gobeithio y bydd penderfyniad ynghylch sut y gallai Is-Grŵp y Fforwm fod yn rhan o hyn.
31. Dywedodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, ein bod wedi clywed am safleoedd gwarchodedig y bore yma a nododd mai un o benawdau'r adroddiad oedd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar Afonydd ACA. Dywedodd Creighton ei fod yn destun bryder iddo fod canolbwyntio ar safleoedd gwarchodedig ac afonydd ACA mewn gwirionedd yn esgeuluso ardal enfawr o Gymru lle mae cryn arferion amaethyddol gwael. Rhoddodd Creighton enghraifft benodol lle mae arfer amaethyddol gwael o ran cynhyrchu porthiant a rheoli slyri. Mae perygl y bydd ardaloedd eraill yn cael eu hesgeuluso a bydd ansawdd yr aer a'r dŵr yn yr ardaloedd hynny yn parhau i ddirywio, ond yn cael ei anwybyddu yn ogystal. Dywedodd leuan mai cylch gwaith yr adroddiad hwn oedd canolbwyntio ar y safleoedd gwarchodedig hynny. Mae'r adroddiad hwn wedi dwyn ynghyd ystod o dystiolaeth, technegau ac argymhellion a fydd yn fewnbwn i feysydd eraill megis y grŵp hwn, Llywodraeth Cymru a hefyd y Byrddau Rheoli Maethynnau. Mae'r amserlen yr adroddiad wedi cwmpasu'r Uwchgynadledau a'r safleoedd gwarchodedig, ond mae ganddo'r potensial i gael ei gyflwyno ledled dalgylchoedd Cymru. Cydnabu Creighton y bydd cryn dipyn o fonitro dalgylchoedd eraill i dynnu sylw at yr arfer gwael sy'n parhau yn y lleoliadau hynny. Yn amlwg, bydd yr enghreifftiau hynny yn cael eu hadrodd i CNC, ond byddem yn disgwyl ymateb gan CNC sy'n briodol i ddifrifoldeb y drosedd, ac nid o reidrwydd i'r ffaith nad yw'n safle gwarchodedig. Mae'r ddeddfwriaeth yn genedlaethol a dylai fod yn berthnasol i bawb, ac mae'n bwysig bod pawb yn cadw hynny mewn golwg, gan gynnwys y diwydiant a'r rheoleiddiwr. Dywedodd leuan fod argymhelliad o fewn yr adroddiad hwnnw am gynyddu'r gwaith monitro, ar gyfer priddoedd a dŵr. Efallai daw hyn fel rhan o gamau gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu drwy Wyddoniaeth Dinasyddion. Rydym hefyd wedi derbyn adborth gan Lywodraeth Cymru ar bolisi Gwyddoniaeth Dinasyddion ar gyfer profi ansawdd dŵr ar gyfer y grwpiau gweithredu sydd o fewn rhai o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac mewn mannau eraill. Bydd hynny i gyd yn adborth i'w ategu at y wybodaeth sy'n cael ei derbyn gan CNC fel y rheoleiddiwr.
32. Nododd Dennis Matheson nad yw ffosforws yn ddrwg i gyd, mae'n hanfodol ar gyfer tyfiant planhigion. Cyfeiriodd Dennis at ei amser yng Ngorllewin Awstralia lle'r unig wrtaith a ddefnyddid ar y gwenith oedd uwchffosffad – heb hynny ni fyddai wedi tyfu o gwbl. Cymharodd Dennis hynny â'i fferm lle nad oes rhaid iddo ddefnyddio unrhyw beth o gwbl ar ôl samplu'r pridd gan fod digon o ffosffad yn bodoli yna eisoes. Trafododd Dennis bwysigrwydd statws calch y tir. Yn hanesyddol, prif ffynhonnell ffosforws oedd slag basig (sgil-gynnyrch y diwydiant dur), a oedd yn rhyddhau ffosforws llawer yn arafach na'r gwrtiaith modern a geir mewn bagiau. Dywedodd Dennis ei fod o'r farn y dylai'r grŵp hwn fod yn cwmpasu pob math o lygredd, gan gynnwys afonydd, ffosffadau, amonia, aer glân a phopeth arall.

33. Dywedodd David fod yr afonydd ACA wedi bod yn ysgogiad i'r adroddiad gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, mae canlyniad yr adroddiad mewn gwirionedd yn berthnasol i bob afon ledled Cymru gyfan a byddai unrhyw argymhelliad hefyd yn berthnasol iddyn nhw yn ogystal.
34. Dywedodd Ieuan fod llawer o'r materion llygredd hyn bellach mor gymhleth, ond mai'r gadwyn gyflenwi mewn gwirionedd yw'r broblem sylfaenol ac mae'n achosi ystod eang o broblemau sy'n effeithio ar ecosystemau daearol, dŵr croyw ac iechyd pobl.
35. Eglurodd Rhys y bydd y drafft terfynol yn cael ei ddsbarthu i'r grŵp hwn ar ôl i'r ATG ei gymeradwyo. Dywedodd Ieuan y daw'r adroddiad hwn o'r diwydiant Amaeth a'i fod wedi'i ddatblygu gan y grŵp hwnnw. Mae CNC wedi darparu'r ysgrifenyddiaeth ac mae Marc Williams, CNC, wedi mynychu cyfarfodydd i sicrhau bod rheoleiddio a pholisi wedi cael eu hadlewyrchu'n gywir yn yr adroddiad. Dywedodd Ieuan y byddent yn croesawu adborth ond na fyddai hynny yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiad ei hun.
36. Cyfeiriodd Creighton yn ôl at y posibilrwydd neu'r uchelgais o gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad hwn ar Afonydd ACA i Gymru ehangach gan gynnwys afonydd nad ydynt yn ACA. Dywedodd Creighton y byddai'n disgwyl gweld cydnabyddiaeth o hynny yn yr adroddiad ei hun. Dywedodd Ieuan y byddai'n sicr yn anfon y wybodaeth honno ymlaen ar gyfer y drafft terfynol, ond mater i'r ATG fyddai penderfynu a fyddai'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad terfynol.
37. Trafododd Rhys y posibiliadau ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd i'r adroddiad ar ôl ei gyhoeddi a'r hyn y gall Is-Grŵp y Fforwm ei wneud o ran symud pethau ymlaen. Cyfeiriodd Rhys yn ôl at yr hyn a ddwedwyd lle nad oedd aelodau'r ATG yn gweld y byddant yn gallu ymrwmo i hyn am y tymor hir ac efallai bod dadl ei fod wedi'i sefydlu fel Grŵp Gorchwyl a Gorffen penodol amser cyfyngedig. Mae'n debyg y daw hyn oll yn fwy eglur unwaith i ni weld yr adroddiad ei hun yn dilyn Uwchgynhadledd y Prif Weinidog. Fodd bynnag, byddai'n gyfle da i ni drafod hynny yn y cyfarfod fis nesaf.

PG 6 Tachwedd 03: Bronwen Martin i ychwanegu'r camau nesaf i agenda cyfarfod mis Rhagfyr ar ôl i Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA gael ei ddsbarthu ac Uwchgynhadledd y Prif Weinidog ddigwydd.

Eitem 6. Diweddariad: Camau Nesaf yn dilyn Ymgynghoriad y Cynllun Trwyddedu

38. Rhoddodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru, diweddariad byr llafar yn dilyn y [Datganiad Ysgrifenedig: Rheoli Maethynnau – Rheoli taenu tail da byw yn gynaliadwy \(10 Hydref 2023\) | LLYW.CYMRU](#).
39. Roedd hwn yn benllanw proses Ymgynghoriad y Cynllun Trwyddedu o'r llynedd a chytunwyd arno fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Yn ei hanfod, mae'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch yn cyflwyno llawer o'r mesurau yr ymgynghorwyd arnynt yn wreiddiol, ond mae'n dileu'r elfen drwyddedu ohono. Bu hynny i raddau helaeth o ganlyniad i adborth yr ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth eang o blaid cynllun am gyfnod penodol, ond awgrymodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y dylai fod yn llai cymhleth ac yn fwy syml i ffermwyr wneud cais amdano.
40. Y broses hysbysu fydd cyflwyno Cynllun Rheoli Maethynnau Uwch i Gyfoeth Naturiol Cymru a bydd hynny yn ymgorffori ffosfforws yn y Cynllun Rheoli Maethynnau. Dim ond

gofyniad am nitrogen sydd yn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar hyn o bryd, ond mae'r broses hysbysu hon yn cynnwys gofyniad asesu ffosfforws. Rhaid i hynny fod yn seiliedig ar samplu pridd a rhaid bod y samplau pridd wedi'u cymryd o fewn y tair blynedd diwethaf a bydd hynny'n pennu terfynau ar gyfer cynydu unigol yn seiliedig ar werthoedd arfer gorau presennol RB209 neu pan fydd y ffigurau yn uwch na'r gwerthoedd hynny, rhaid iddo fod o dan gyngor cymwys Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau (FACTS). Bydd terfynau uchafswm defnydd ffosfforws yn cael eu cyflwyno yn seiliedig ar lefelau'r ffosfforws sy'n bresennol yng nghaeau unigol y fferm.

41. Rhaid i hynny gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2024 (e.e., rhaid i hysbysiadau dod i law CNC erbyn diwedd mis Mawrth). Mae hwn yn gynllun un flwyddyn ac mae hynny wedi'i wneud yn glir iawn.
42. Ochr yn ochr â'r Cynllun Rheoli Maethynnau Uwch, mae camau ychwanegol y mae'n rhaid i ffermwyr eu cymryd i wella diogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys mesurau megis defnyddio technegau taenu allyriadau isel a chynyddu parthau clustogi. Rydym yn cyflwyno rhai mesurau ymarfer ychwanegol i liniaru yn erbyn y ffaith y bydd lefelau uwch o dail da byw yn cael eu defnyddio ar y tir drwy ganiatáu cynnydd hyd at derfyn o 250 cilogram yr hectar.
43. Mae ychydig o fesurau eraill wedi'u cynnwys sydd ar hyn o bryd o fewn Trawsgydymffurfio, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â phriddoedd, megis cywasgu pridd a lleoliadau porthwyr atodol a lleoliadau yfed atodol. Rydym yn cydnabod bod gan briddoedd rôl bwysig mewn colledion ffosfforws, felly mae cynnal pridd ar y fferm yn bwysig iawn a bydd cyflwyno'r mesurau diogelu pridd ychwanegol hynny yn rhan ohono.
44. O ran yr amserlen, ymrwymodd y Datganiad Ysgrifenedig i oedi'r Rheoliadau erbyn 30 Tachwedd. Ar hyn o bryd mae yng ngham y drafftio cyfreithiol terfynol, felly bydd yn cael ei gymeradwyo cyn bo hir. Ddiwedd y mis, rydym yn gobeithio cael amlinelliad o'r Rheoliadau, a fydd yn cael eu cyflwyno, a'n canllawiau i gefnogi ffermwyr gyda'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud er mwyn cwblhau'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch. Bydd hynny'n caniatáu tan 31 Mawrth i'r cynlluniau hynny gael eu cyflwyno i CNC. Bydd hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2024 a 1 Ionawr 2025 ond bydd gan ffermwyr tan fis Mawrth 2024 i'w gyflwyno. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'r cynlluniau hynny gael eu datblygu, ymgymryd ag unrhyw brofion pridd a dadansoddi'r canlyniadau sydd eu hangen i'w lywio.
45. Mae Llywodraeth Cymru am fod yn weddol hyblyg o ran y dull gan fod arfer da eisoes yn bodoli yn y sector mewn perthynas â rheoli maethynnau a'r defnydd o Gynlluniau Rheoli Maethynnau, felly nid ydym yn rhagnodi'r union fformat y dylid ei ddefnyddio i'w gyflwyno. Nid ydym yn rhagnodi yn union sut y dylid cwblhau'r cynlluniau nitrogen o dan y Rheoliadau presennol, ond yn amlwg mae gennym ofynion sylfaenol. Yn y bôn, gellir eu cyflwyno mewn unrhyw fformat cyn belled â'u bod yn bodloni'r cyfrifiadau lleiaf, a bod y cyfrifiadau'n unol â gofynion y Rheoliadau. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd os oes gan ffermwr Gynllun Rheoli Maethynnau a ddatblygwyd eisoes fel rhan o'u Gwarant Fferm neu arfer gorau cyffredinol, yna gallant ddefnyddio hynny wrth symud ymlaen.
46. Gofynnodd Gareth a fydd Llywodraeth Cymru yn dylunio llyfr gwaith atodol ar gyfer y Dull Rheoli Maethynnau Uwch. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu llyfr

gwaith gan fod llawer o arferion da ar gael yn barod. Mae Cynlluniau Rheoli Maethynnau yn rhan o gynlluniau Gwarant Fferm, neu amryw gynlluniau eraill y gellir eu defnyddio (e.e., osgoi dyblygu).

I'r rhai sy'n gobeithio cwblhau cyflwyniad erbyn diwedd mis Mawrth, a fyddant yn gallu parhau â'u system ffermio bresennol a fyddai'n golygu bod dros y terfyn 170 cilogram o 1 Ionawr; gyda'r rhagdybiaeth y bydd y cyflwyniad yn cael ei dderbyn. Dywedodd Matthew na fydd asesiad gan CNC, a bydd angen i'r Cynlluniau Rheoli Maethynnau sefyll fel y maent. Bydd y gofynion yn cyfyngu ar y defnydd gan ddibynnu ar fynegai'r priddoedd. Felly, mae unrhyw un sy'n mabwysiadu'r dull hwnnw yn deall yr hyn y mae'n ei olygu ac efallai y bydd rhaid iddynt wneud addasiadau i'w system bresennol. Nid oes sicrwydd y bydd cydymffurfio drwy ymgymryd ag hysbysiad yn unig, bydd angen i ffermwyr fodloni'r gofynion. Mae'n gyfrifiad sy'n benodol i'r fferm ac yn asesiad penodol, felly bydd yn dibynnu ar y sefyllfa benodol. Rydym yn parhau â'r gofyniad glaswelltir 80% felly mae rhai gofynion sydd angen eu bodloni fel rhan o'r broses hysbysu. Ni fydd yn asesiad gan CNC, byddai'n cael ei gadw er gwybodaeth ac yn rhan o broses arolygu.

47. Gofynnodd Chris Mills sut y bydd cydymffurfio â gofynion y cynllun yn cael ei fonitro. Dywedodd Matthew y bydd yn cael ei fonitro fel rhan o'r CLG cyfredol gyda CNC. Mae'r CLG newydd ar waith i gyflwyno'r drefn orfodi ac arolygu ychwanegol. Mae Swyddogion CNC newydd wedi'u recriwtio ac yn cael eu hyfforddi. Bydd y ffermydd a hysbyswyd yn cael eu hystyried yn risg uchel ac o dan y cytundeb gyda CNC rydym yn targedu ffermydd risg uchel (e.e., ffermydd sy'n gweithredu mewn modd yr ydym yn ei ystyried sy'n fwy tebygol o achosi llygredd) a chai'r ffermydd hyn eu blaenoriaethu ar gyfer gorfodi ac archwilio o dan y CLG.

Gofynnodd Chris ynghylch y ffermydd nad ydynt yn hysbysu CNC. Dywedodd Matthew y byddai rhaid i hynny fod ar lefel cae neu gael ei lywio gan wybodaeth. Os yw CNC yn gwybod eu bod yn ymdrin â slyri, byddant ar y rhestr risg uchel beth bynnag. Mae elfen o ddilysu yn bodoli o ran peidio â hysbysu ac yna mynd yn uwch na 170kg/ha lle byddant yn torri'r amodau ac yn destun gorfodi. Awgrymodd Chris y byddai mwy o warant wedi bod pe bai gennych drwydded. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, byddai'r angen i asesu trwydded o bosib yn arwain at lai o adnoddau ar gyfer y gweithgaredd gorfodi. Mewn gwirionedd, oll mae asesu trwydded yn ei wneud yw gwirio bod y ffigurau ar y papurau a gyflwynir yn gyson â'i gilydd, yn hytrach na'i fod yn gyfundrefn arolygu fwy dwys. O bosib, mae'n well mabwysiadu'r dull hwn yn hytrach na dull trwyddedu. Roedd Chris yn anghytuno a dywedodd y byddai'n beth da pe bai CNC yn darparu'r data ar gyfer y gwaith monitro ac arolygu cydymffurfiaeth. Byddai hyn yn helpu i ddeall pa lefel o arolygu sy'n digwydd a beth yw'r lefel gydymffurfio. Cytunodd Rhys a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp hwn gael cyflwyniad gan CNC ar y dull gorfodi ac arolygu.

PG 6 Tachwedd 04: Bronwen Martin, CNC, i holi ynghylch cyflwyniad posibl ar ddull gorfodi ac arolygu CNC o ran Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

48. Gofynnodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, pa fanylion y byddai angen eu darparu ar gyfer y Cynllun Rheoli Maethynnau Uwch newydd. Dywedodd Matthew fod angen iddo fod yn seiliedig ar samplu pridd a wnaed yn ystod y tair blynedd diwethaf. Felly, mae angen iddo gwmpasu'r flwyddyn. Byddai angen i hynny gwmpasu 1 Ionawr 2024 hyd at ddiwedd cyfnod 2024. Bydd yn dibynnu ar ffermydd unigol a'r hyn sydd ganddynt eisoes ar waith. Mae'n bosib y gellid adolygu cynllun sy'n bodoli eisoes yn hytrach nag

ysgrifennu cynllun cwbl newydd, ond mae'n dibynnu ar y ffigurau. Gofynnodd Einir Williams a oedd angen cynnwys pob cae a ddefnyddir ar gyfer taenu slyri o fewn y cynllun hwnnw. Cadarnhaodd Matthew y byddai angen gwneud, hynny yw pob cae lle mae nitrogen yn cael ei ddyddodi. Dywedodd Einir bod ymgynghorwyr Cyswllt Ffermio fel arfer yn gwneud pecynnau o tua 20 o gaeau ac nad yw'n ddigon ar gyfer y ffermydd mwy. Eglurodd Andrew mai'r drefn oedd pob 5 hectar o'r un drefn cynydio a phob cyfundrefn rheoli. Gellid ei ymgorffori ond byddai'n rhaid edrych arno fesul achos. Dywedodd Matthew fod hwn yn faes ar gyfer y canllawiau o ran yr hyn yn union y bydd angen i ffermwyr unigol ei wneud yn seiliedig ar ofynion y Rheoliadau. Gofynnodd Einir beth sy'n digwydd ar ôl 1 blwyddyn. Dywedodd Matthew ar hyn o bryd y bydd yn cael ei gynnwys o fewn yr ail-brosesu pedair blynedd. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, byddwn yn troi ein sylw at yr adolygiad pedair blynedd. Gobeithio bydd gennym fwy o wybodaeth ynghylch lleoliadau'r ffermydd sy'n defnyddio mwy na 170 cilogram yr hectar a'u statws pridd a maethynnau. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hymgorffori yn y broses adolygu 4 blynedd. Rhaid gwneud hyn erbyn 1 Ebrill 2025. Rydym yn gobeithio cael amlinelliad o'r hyn a all ddigwydd nesaf, ond ar hyn o bryd ein safbwynt yw y bydd yn dychwelyd i'r terfyn 170 cilogram yr hectar. Dywedodd Andrew mai pwrpas yr ymgynghoriad yn y bôn oedd rhoi mwy o amser i ffermwyr addasu i'r terfyn 170 kg/ha.

49. Rhoddodd Jon Goldsworthy, CNC, diweddariad cryno ynghylch staff newydd CNC. Mae CNC wedi bod yn cynnal ymgyrch recriwtio. Ar hyn o bryd mae saib ar recriwtio o fewn CNC ond mae'r rhan fwyaf o'r swyddi gwag wedi'u llenwi a'r gweithwyr newydd wedi dechrau eu hyfforddiant. Rydym yn hapus iawn gyda'r cymysgiad o brofiad sydd wedi'u recriwtio i'r tîm hwnnw. Y bwriad yw y byddant yn dechrau ymweld â ffermydd cyn gynted ag y bo modd. Bydd archwilio diweddariad cyn y cyfarfod nesaf.
50. Dywedodd Rachel os ydych yn casglu data ar lefelau cydymffurfio ac o bosib yn ei gyhoeddi i'r grŵp hwn, yna mae angen i chi gasglu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol. Er enghraifft, deiliadaeth tir y fferm honno, p'un a yw'r fferm yn ffermwr tenant nad yw'n gallu cydymffurfio â'r rheoliadau oherwydd y seilwaith a chael caniatâd ac ati. Mae angen i chi hefyd gasglu data ar ffermwyr sydd dan gyfyngiadau oherwydd TB Buchol, oherwydd mae'r rhain yn faterion allweddol sy'n atal cydymffurfio â'r rheoliadau. Cyfeiriodd Rachel at y ffaith mai dull amser cyfyngedig yw hwn, ond bod angen ateb hirdymor mewn gwirionedd i gefnogi'r busnesau fferm hynny yn yr amgylchiadau heriol hyn.
51. Gofynnodd Gareth i Lywodraeth Cymru am gynyddu'r lleiniau clustogi. Dywedodd Matthew y bydd mwy o dail yn mynd ar y fferm sy'n cynyddu'r risg o ddigwyddiad llygredd o ganlyniad i ddŵr ffo. Mae'n fesur eithaf bach i liniaru yn erbyn y ffaith bod mwy o nitrogen a ffosfforws yn cael eu defnyddio ar y tir. Mae'n fesur lliniaru ychwanegol.
52. Dywedodd Dennis fod rhai o ofynion y dull newydd wedi'u cwmpasu gan Warant Fferm ac er mwyn bod yn gymwys rhaid derbyn arolygiad. Bellach mae hyn yn digwydd pob dwy flynedd ar gyfer Tractor Coch ac mae hynny'n cwmpasu cynlluniau rheoli maethynnau a mapiau risg. Fodd bynnag, edrychodd y grŵp hwn ar hynny peth amser yn ôl gan ddod i'r casgliad nad oedd trefn arolygu Gwarant Fferm yn ddigon cadarn i gymryd lle unrhyw arolygiadau a gynhelir gan CNC. Efallai bydd modd datrys hyn yn y dyfodol oherwydd mae'n arwain at ddyblygu popeth.

53. Cyfeiriodd Dennis at y ffaith bod y drefn arolygu newydd gan staff newydd CNC yn dal i gael ei sefydlu, ond mae trefn arolygu hefyd ar gyfer trawsgydymffurfio â Thaliadau Gwledig Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r ddau gorff hyn yn defnyddio dulliau gwahanol i ddelio ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Dywedodd Dennis ei fod wedi ceisio cael Taliadau Gwledig Cymru i ddefnyddio'r un dull â CNC wrth ddelio â thenantiaid ond ni fu'n llwyddiannus. Mae'n bwysig iawn integreiddio'r ddau, neu fel arall mae'n bosibl y cewch eich cosbi gan Taliadau Gwledig Cymru, ond nid gan CNC. Dywedodd Andrew eu bod yn wahanol gyfundrefnau, felly maent yn cael eu gorfodi mewn gwahanol ffyrdd. Mae gan drawsgydymffurfio fatrics cosb ac mae CNC yn gweithio yn unol â strwythurau'r llywodraeth sydd ganddo o ran gorfodi rheoliadau. Mae'n anochel y bydd dull gwahanol ar gyfer y dull rheoleiddio a'r dull trawsgydymffurfio. Mae CNC yn cymryd rhan mewn gorfodi Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol drwy drawsgydymffurfio hefyd. Felly, mae rhywfaint o barhad o ran y dulliau a ddefnyddir. Dywedodd Matthew y bydd gofynion y Dull Rheoli Maethynnau Uwch yn rhan o drawsgydymffurfio yn ogystal oherwydd byddant yn strwythurol yn rhan o Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a bydd gofynion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ychwanegol ar gyfer y ffermydd hynny sy'n ymgymryd â'r dull.

Eitem 7. Unrhyw fater arall

54. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Rhagfyr.

55. Rhoddir manylion dyddiadau cyfarfodydd 2024 maes o law.

56. Ni chodwyd unrhyw fater arall.